

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Dyddiad Cyhoeddi: 9 Chwefror 2015

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

STATWS: GWEITHREDU

**CATEGORI: Y GWEITHLU / CYLLID / POLISI / LLYTHYR GWEITHWYR IECHYD
PROFFESIYNOL**

Teitl: Gwella mynediad at wasanaethau deintyddol arbenigol a gyflwynir drwy ofal sylfaenol

Dyddiad Adolygu Ebrill 2016

I'w weithredu gan:
Byrddau Iechyd

Angen gweithredu erbyn: Ebrill 2016
Gweler paragraff 5

Anfonir gan: Grant Duncan, Pennaeth yr Is-adran Polisi Gofal Iechyd
David Thomas Prif Swyddog Deintyddol Cymru

Enw(au) Cyswllt yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru :
David Thomas, Prif Swyddog Deintyddol
david.thomas8@wales.gsi.gov.uk 029 2082 3443

Dogfennau amgaaedig: Dim

RHESTR DDOSBARTHU

Ysgrifenyddion Byrddau

Aneurin Bevan
Betsi Cadwaladr
Caerdydd a'r Fro
Cwm Taf
Hywel Dda
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Powys
Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Ymddiriedolaeth Felindre
Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru
Ysgrifennydd y Grŵp Ysgrifenyddion Byrddau

Prif Weithredwyr

Aneurin Bevan
Betsi Cadwaladr
Caerdydd a'r Fro
Cwm Taf
Hywel Dda
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Powys
Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Ymddiriedolaeth Felindre
Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru

Cadeiryddion

Aneurin Bevan
Betsi Cadwaladr
Caerdydd a'r Fro
Cwm Taf
Hywel Dda
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Powys
Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Ymddiriedolaeth Felindre
Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru

Llywodraeth Cymru

Cyfarwyddwr Cyffredinol/Prif Weithredwr GIG Cymru
Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru
Tîm Gweithrediadau'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Tîm Cyfathrebu'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyfarwyddwyr Perthnasol

Swyddfa Archwilio Cymru

Rheolwr Technegol sector y GIG a Llywodraeth Ganolog

Rhwydwaith Canser De Cymru

Cyfarwyddwr

Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru

Mr John Palmer, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Arbenigol
Mr John Hill-Tout, Cadeirydd Interim
Miss Pam Wenger, Ysgrifennydd y Pwyllgor

Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwllans Brys

Mr Stuart Ide, Comisiynydd Interim Gwasanaethau Ambiwllans
Yr Athro McClelland, Cadeirydd
Miss Pam Wenger, Ysgrifennydd y Pwyllgor

Blwch Post Cyffredinol: whssc.generalenquires@wales.nhs.uk

Ymgynghorwyr mewn Iechyd Deintyddol Cyhoeddus
Cyfarwyddwyr Clinigol Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol

Crynodeb

Diben y Cylchlythyr hwn yw darparu manylion yngl n â pholisi Llywodraeth Cymru a'r cyllid sydd ar gael i gyflawni gwell iechyd y geg i grwpiau o gleifion sy'n agored i niwed trwy wella mynediad at wasanaethau deintyddol arbenigol ar draws Cymru.

Gweithredu

Byrddau Iechyd i gydweithio i gyflawni rhaglen ofal effeithiol ar gyfer y geg i bobl agored i niwed sy'n byw yng Nghymru. Bydd y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol yn chwarae rôl anhepgor wrth gyflawni hyn, gan gryfhau arfer da presennol a chyflwyno gweithdrefnau newydd pan fo'n briodol.

1. Cefndir

Mae *Law yn Llaw at Iechyd - Cynllun Cenedlaethol Cymru ar gyfer Iechyd y Geg* yn tynnu sylw at yr angen i gyflawni'r pedwar cam gweithredu sy'n gysylltiedig â deintyddiaeth a gynhwysir yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Mae'r Cynllun Cenedlaethol yn mynnu bod byrddau iechyd yn datblygu cynlluniau gweithredu lleol i fodloni anghenion iechyd y geg a ddynodwyd ac mae'n nodi tair thema eglur: atal clefyd y geg; cyflwyno gwasanaethau; ac ansawdd a diogelwch. Mae pob bwrdd iechyd wedi rhoi cynlluniau ar waith yn nodi gwahanol anghenion. Ar ôl dadansoddi cryfderau a gwendidau cymharol bob cynllun, ym mis Mai 2014 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Adroddiad Blynyddol yn nodi bod angen gweithio'n barhaus â'r byrddau iechyd er mwyn sicrhau bod eu holl gamau gweithredu'n cael eu datblygu, eu monitro a'u cyflawni. Roedd themâu a blaenoriaethau allweddol cyffredin yng nghynlluniau'r byrddau iechyd yn cynnwys problemau'n gysylltiedig â phoblogaeth sy'n cynyddu ac yn heneiddio, a diffyg mynediad at wasanaethau mwy arbenigol, yn enwedig felly Ddeintyddiaeth Gofal Arbennig, Deintyddiaeth Adferol, Deintyddiaeth Bediatrig a Llawdriniaeth y Geg. Mae 2014-15 yn gychwyn ffocws parhaus ar wella'r dull o gyflwyno gwasanaethau mewn lleoliadau gofal sylfaenol gyda lansiad y cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol yng Nghymru.

2. Materion Allweddol

Mae'n fater allweddol i Lywodraeth Cymru sicrhau bod anghenion y rhai mwyaf agored i niwed yn cael eu bodloni. Mae'n hysbys fod darpariaeth deintyddiaeth gofal arbennig a mynediad at wasanaethau arbenigol i bobl sy'n agored i niwed yn wael mewn rhai ardaloedd yng Nghymru. Trwy ddarparu adnoddau ychwanegol i hybu'r gwasanaethau hyn a sicrhau eu bod ar gael yn rhwyddach, gellir helpu i fodloni rhai o anghenion y mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau, yn ogystal â chefnogi ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu.

Mae cyllid rheolaidd yn cael ei fuddsoddi i gyflawni blaenoriaethau gofal arbennig a ddynodwyd. Gofynnir i fyrddau iechyd ddatblygu a /neu berffeithio cynigion i sicrhau bod y gwasanaethau deintyddol hyn yn cael eu cyflwyno gan fwyaf mewn lleoliadau gofal sylfaenol. **Mae angen cyflwyno cynigion ar gyfer gwasanaethau newydd ac nid ar gyfer ariannu gwasanaethau arbenigol sydd eisoes yn bodoli. Mae angen iddynt fod yn effeithiol, sicrhau bod gwasanaethau arbenigol ar gael yn rhwyddach, cydfynd ag egwyddorion gofal iechyd darbodus, a lleihau amseroedd aros yn y sector gofal eilaidd.** Os llwyddir i gyflawni'r fenter hon, bydd gwasanaethau deintyddol arbenigol ar gael ar gyfer 1,500-3,000 o gleifion ychwanegol bob blwyddyn. Bydd perfformiad pob cynnig a gymeradwyir yn cael ei fonitro gan swyddogion Llywodraeth Cymru a bydd targedau byrddau iechyd lleol yn cael eu cyflawni'n seiliedig ar y mathau a'r nifer o wasanaethau a ddatblygir.

3. Asesiad o Anghenion

Amcangyfrifir bod hyd at un oedolyn o bob pedwar yng Nghymru wedi profi, neu y bydd yn profi, anabledd yn ystod ei oes. Mae hwn yn gr p amrywiol o gleientiaid, ag amrywiaeth o anableddau ac anghenion ychwanegol cymhleth. Mae'n cynnwys pobl sy'n byw yn eu cartrefi a phobl sy'n derbyn gofal preswyl.

Mae lefelau anabledd ar eu huchaf yn ne-ddwyrain Cymru ac ar eu hisaf yn y Canolbarth. Mae lefelau anabledd yn uchel yng nghymunedau cymoedd de Cymru (e.e. Blaenau Gwent 27.4%) ac ar eu hisaf mewn trefi a dinasoedd (Wrecsam 15.6% ac Abertawe 15.5%). Mae llawer o'r anableddau hyn yn fach neu'n gymedrol ac mae pobl yn derbyn gofal iechyd y geg sy'n briodol i'w hanghenion trwy wasanaethau prif ffrwd, gyda chymorth arbenigol wrth gefn petai ei angen.

Fodd bynnag, yng Nghymru mae tua 14,000 o oedolion ag anableddau dysgu difrifol yn unig. Hyd yn oed o ychwanegu rhai yn unig o'r bobl ag amrywiaeth eang o anableddau eraill neu gyflirau meddygol cymhleth, gallai cyfanswm yr oedolion yn rhwydd fod yn fwy na 25,000.

Mae tystiolaeth ddiweddar yn awgrymu bod bron i 1 o bob 4 o bobl yng Nghymru'n 60 oed neu fwy. Dros yr 20 mlynedd nesaf rhagamcannir y bydd y boblogaeth fel cyfanrwydd yn cynyddu 3% ac y bydd nifer y bobl o oedran ymddeol yn cynyddu 11%. Rhagamcannir y bydd nifer y bobl sy'n 85 oed a hyn draean yn uwch. Bydd mwyafrif y grŵp hwn yn parhau i fod ag angen gofal deintyddol gan arbenigwyr, neu ofal wedi'i rannu â chydweithwyr mewn arbenigeddau eraill neu leoliadau gofal sylfaenol.

Mae llawer o anableddau'n gallu cael effaith ar iechyd y geg, a gaiff effaith yn ei dro ar iechyd cyffredinol pobl a'u hansawdd bywyd. Mae'n hanfodol fod gofal iechyd y geg yn rhan anhepgor o gynllunio gofal iechyd ar gyfer pobl ag anableddau. Mae ar bobl ag anghenion arbennig angen gwasanaethau deintyddol sy'n addas ar gyfer eu hanghenion, a bydd y gwasanaethau hyn yn cynnwys timau deintyddol wedi'u hyfforddi'n briodol a chanddynt yr offer priodol. Bydd angen i ofal arbenigol fod ar gael yn gyson i rai pobl. O gydnabod nad yw llwybrau gofal yn aros yr un fath, dylid cysylltu arbenigwyr mewn Deintyddiaeth Gofal Arbennig â chydweithwyr sy'n gweithio mewn timau gofal deintyddol sylfaenol, gan sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei gyflwyno gan y timau clinigol mwyaf addas.

Gwelir enghreifftiau o arfer da yng Nghymru yn y lleoedd lle ceir màs critigol o ddeintyddion a Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol wedi'u hyfforddi'n briodol i ddatblygu gwasanaethau arbenigol yn unol â chanllawiau a fframweithiau cenedlaethol. Fodd bynnag, mae hyn yn amrywio ac mae angen rhagor o fuddsoddiad i ddatblygu mynediad teg at wasanaethau arbenigol ar draws Cymru.

4. Cyllido

Mae cyfanswm o £370,000 ar gael i gyflwyno'r rhaglen o 2015-16. Mae'n gyllid rheolaidd, a bwriedir iddo gael ei ddefnyddio i wella iechyd y geg yn ôl telerau'r canllawiau hyn. Datblygwyd dosbarthiad y dyraniadau yn seiliedig ar yr angen i ddatblygu a chynnal mynediad teg at wasanaethau deintyddol arbenigol ar draws Cymru a chyda chynngor oddi wrth Bwyllgor Deintyddol Cymru a Fforwm Strategol Deintyddiaeth Gofal Arbennig.

Dyrannu'r cyllid

Byrddau Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a Phrifysgol Hywel Dda - £50,000 yr un i fodloni anghenion gwasanaeth a nodwyd mewn cynlluniau iechyd y geg lleol presennol trwy wella mynediad at wasanaethau deintyddol arbenigol, yn enwedig o fewn cylch gwaith Deintyddiaeth Gofal Arbennig;

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Addysgu Iechyd Powys - £50,000 yr un i fodloni anghenion gwasanaeth a nodwyd mewn cynlluniau iechyd y geg lleol presennol trwy wella mynediad at wasanaethau deintyddol arbenigol, yn enwedig o fewn cylch gwaith Deintyddiaeth Gofal Arbennig;

Byrddau Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Phrifysgol Cwm Taf - £50,000 yr un i fodloni anghenion gwasanaeth a nodwyd mewn cynlluniau iechyd y geg lleol presennol trwy wella mynediad at wasanaethau deintyddol arbenigol, yn enwedig o fewn cylch gwaith Deintyddiaeth Gofal Arbennig;

Dyrennir cyllid o £70,000 i Adran Ddeintyddol Deoniaeth Cymru er mwyn ariannu un hyfforddai yn llawn mewn rhaglen hyfforddiant (academaidd/ gwasanaeth) mewn Deintyddiaeth Gofal Arbennig. Disgwylir i Ddeoniaeth Cymru ddefnyddio isadeiledd y rhaglen hyfforddiant bresennol, a bydd Byrddau Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac Aneurin Bevan yn cyflwyno'r rhaglen hon.

Er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru i fonitro gwariant ar y fenter hon, rhaid sicrhau y gellir ei nodi'n eglur yn rhan o ddatganiad chwarterol contract deintyddol y bwrdd iechyd (gwneir trefniadau ar wahân gyda Deoniaeth Cymru i ddatgan ei wariant).

5. Datblygu'r rhaglen

Gan weithio gyda'i gilydd, mae'n ofynnol i fyrddau iechyd roi rhaglen ar waith i sicrhau bod gwasanaethau deintyddol arbenigol ar gael yn effeithiol. Bydd y datblygiadau hyn yn cael eu harwain a'u gweithredu'n lleol, gan nodi a datblygu gwaith sydd eisoes ar y gweill, a rhoi sylw arbennig i rôl y Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol yng Nghymru. Mae Atodiad 1 yn rhoi enghreifftiau o ddulliau arloesol o gyflwyno gwasanaethau deintyddol arbenigol.

Bydd byrddau iechyd, gan weithio ag awdurdodau lleol, yn sicrhau bod eu grŵp cynghori lleol ar iechyd y geg (neu gorff cyfatebol) a'r Rhwydwaith Clinigol a Reolir perthnasol yn chwarae rhan lawn wrth gynllunio sut i roi'r rhaglen ar waith yn lleol, gan sicrhau bod y rhanddeiliaid lleol I GYD yn cael cyfleoedd i gyfrannu'n effeithiol.

Cydnabyddir bod byrddau iechyd ar gamau gwahanol o ran datblygu gwasanaethau deintyddol arbenigol ac y bydd y swyddi newydd hyn yn cael eu cyflwyno ar wahanol adegau felly ar draws Cymru. Byddai'n enwedig o heriol disgwyl i'r holl fyrddau iechyd roi'r rhaglen ar waith ar unwaith; er hynny mae'n rhesymol disgwyl i'r camau gweithredu gael eu cyflawni erbyn mis Ebrill 2016. Disgwylir y bydd byrddau iechyd yn gweithio gyda'i gilydd a datblygu cynigion ar y cyd os mai dyma'r ffordd fwyaf effeithlon o gyflawni gwelliannau e.e. penodiad(au) ar y cyd.

6. Monitro a Gwerthuso

Bydd tîm polisi deintyddol Llywodraeth Cymru'n monitro'r hyn a gyflawnir:

trwy drafod â byrddau iechyd mewn cyfarfodydd adolygu blynyddol;
trwy asesiadau ffurfiol o'r Cynllun Lleol ar gyfer Iechyd y Geg; a
thrwy adroddiadau blynyddol oddi wrth Rwydweithiau Clinigol a Reolir perthnasol.

Darperir y cyllid at ddiben penodol cyflawni mentrau gwella iechyd y geg fel yr amlinellwyd yn y Cylchlythyr hwn. Mae'n ofynnol i fyrddau iechyd sy'n cymryd rhan ac i Ddeoniaeth Cymru ddarparu gwybodaeth yngl n â'r cynnig hwn yn rhan o broses o gyflwyno adroddiadau ar Gynllun Cenedlaethol Cymru ar gyfer Iechyd y Geg/ y Cynllun Lleol ar gyfer Iechyd y Geg. Bydd yn ofynnol cael tystiolaeth o'r broses ymgynghori leol ynghyd â manylion y camau a gymerwyd i ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol ac i gyflawni'r datblygiadau gofynnol yn y gwasanaethau a ddarperir. Datblygir cyfres o fesurau perfformiad er mwyn monitro'r gwaith yn effeithiol. Mae'r rhain yn debyg o gynnwys targedau amser aros am anaethetig cyffredinol ar gyfer cleifion sy'n agored i niwed a dangos bod gwasanaethau wedi'u teilwra ar gyfer unigolion anodd eu cyrraedd ar gael yn rhwyddach. Mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru'n adennill cyllid os na lwyddir i gyflawni amcanion y Cylchlythyr hwn yn llawn.

Adroddiad ar Ddeintyddiaeth Gofal Arbennig yng Nghymru – Adolygiad ac Argymhellion (Hydref 2010): Enghreifftiau o arfer da.

De Cymru : Llwybr Gofal Integredig

Mae Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol Gwent yn darparu gofal ar gyfer pawb sydd ag angen Deintyddiaeth Gofal Arbennig ond na allant ddefnyddio'r Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol. Daw'r atgyfeiriadau oddi wrth Feddygon Teulu, Deintyddion Gofal Sylfaenol, Gwasanaethau Deintyddol mewn Ysbytai a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill e.e. Deietegwyr, Therapyddion Iaith a Lleferydd. Ceir atgyfeirio ar gyfer triniaeth 'un tro', ond gwneir hynny gan amlaf ar gyfer gofal parhaus.

Atgyfeirir oedolion ag anableddau dysgu trwy'r timau Anableddau Dysgu yn ogystal â thrwy waith allgymorth gan y tîm deintyddol mewn canolfannau dydd a chartrefi preswyl.

Arweinir rhaglenni gofal ar gyfer grwpiau penodol gan uwch Ddeintyddion Gofal Arbennig, hynny yw, ar gyfer pobl h n ac oedolion ag anableddau dysgu, salwch meddwl a chyflyrau meddygol a allai effeithio ar eu gofal deintyddol. Mae pob rhaglen yn cynnwys nodau ac amcanion, targedau a strategaethau monitro. Mae tua 1800 o oedolion yn derbyn gofal rheolaidd drwy'r rhaglenni gwasanaeth hyn. Mae cleifion eraill yn derbyn triniaethau 'un tro'.

Mae'r tîm deintyddol yn hyrwyddo iechyd y geg gyda gofalwyr mewn cartrefi preswyl a chanolfannau dydd, yn ogystal ag yn unigol gyda chleifion.

Cydgysylltir y gwasanaethau a'r triniaethau hyn gan Arbenigwyr mewn Deintyddiaeth Gofal Arbennig a thimau deintyddol wedi'u hyfforddi'n dda. Maent yn gweithio mewn clinigau sefydlog, unedau symudol ac yn y cartref. Mae deintyddion a hyfforddwyd mewn dulliau llonyddu'n darparu gofal ar gyfer y cleifion hynny na allant ddiodeff deintyddiaeth gyffredin; ac mae deintyddion y Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol yn darparu gofal dan anaesthetig cyffredinol yn yr Ysbyty Cyffredinol Dosbarth lleol mewn cydweithrediad â'r Adran Llawdriniaeth Enol-wynebol a'r Geg.

Gogledd Cymru: Defnyddio'r tîm deintyddol i'r eithaf

Mae'r Arbenigwr yn arwain tîm sy'n cynnwys Therapydd Deintyddol ac Addysgwr Iechyd y Geg. Mae gwasanaeth cynhwysfawr yn darparu hyfforddiant i ofalwyr mewn cartrefi gofal, archwiliad deintyddol blynyddol i breswylwyr er mwyn rhoi cyngor ar iechyd y geg a chynlluniau gofal iechyd y geg ysgrifenedig i unigolion, ac i drefnu triniaeth ddeintyddol ddilynol.

Bydd rhai triniaethau'n cael eu darparu yn y cartrefi gofal, o uned symudol Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol a gynlluniwyd yn arbennig, neu'n defnyddio offer a gynlluniwyd i'w ddefnyddio yn y cartref. Wrth i'r gwasanaeth ddatblygu,

rhwelir y bydd modd cynnwys pobl h n sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain, a'u gofalwyr.

Cewch ddarllen yr adroddiad llawn ar Ddeintyddiaeth Gofal Arbennig yng Nghymru trwy glicio ar y ddolen hon

<http://wales.gov.uk/topics/health/cmo/professionals/dental/publication/information/specialcare/?lang=en>

Gellir cael gfael ar yr holl wybodaeth berthnasol am ddeintyddiaeth gofal arbennig trwy'r ddolen hon

<http://www.wales.nhs.uk/thedevelopmentofspecialcaredentistryinwales>